

Camau sy'n Codi o Gyfarfod WMFAG a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018

<b>Camau gweithredu a gariwyd ymlaen o gyfarfodydd blaenorol:</b>	
<p><b>Cam gweithredu:</b> Darparu cynllun cyflenwi ar gyfer ffrydiau gwaith allweddol.</p> <p><b>Cynnydd:</b> Nid ydym yn dal i allu darparu cynlluniau cyflenwi clir ynghyd ag amserlenni ar gyfer ffrydiau gwaith allweddol. Mae'r gwasanaethau cymorth mewnol y dibynnwn arnynt yn cael eu defnyddio i'r eithaf ac felly, ar hyn o bryd, rhaid inni hoelio sylw ar flaenoriaethu yn hytrach nag amserlenni. Ein bwriad o hyd yw llunio cynlluniau cyflenwi cyn gynted â phosibl.</p>	JB
<p><b>Cam gweithredu:</b> Caroline Dawson i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf i drafod prosiect marchnata a hyrwyddo ar gyfer bwyd môr Cymru.</p> <p><b>Cynnydd:</b> <b>Bydd Caroline Dawson yn mynd i'r cyfarfod ar 7 Chwefror.</b></p>	HW
<b>Camau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref:</b>	
<p><b>Cam gweithredu 1:</b> Tîm Brexit i drefnu cyfarfod arbennig ar gyfer WMFAG yn ystod mis Tachwedd i roi'r newyddion diweddaraf am ddatblygiadau i'r grŵp.</p> <p><b>Cynnydd:</b> <b>Cyfarfod arbennig i'w gynnal ym mis Tachwedd.</b></p>	RF/OE
<p><b>Cam gweithredu 2:</b> BJ i baratoi e-bost i'w anfon at aelodau WMFAG i roi gwybod iddynt nad oedd unrhyw un wedi ymgeisio am injans newydd o dan EMFF. Felly, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â hyn.</p> <p><b>Cynnydd:</b> <b>Anfonwyd e-bost at WFA ar 16/10 i egluro'r sefyllfa.</b></p>	BJ
<p><b>Cam gweithredu 3:</b> Aelodau i ystyried a roi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth am unrhyw gyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan y diwydiant pysgota. Bydd hyn yn galluogi Is-adran y Môr a Physgodfeydd i ystyried ffyrdd o gysylltu â'r rheini nad ydynt yn gysylltiedig â chymdeithasau ac sy'n defnyddio safleoedd sydd fwyaf debygol o gael eu defnyddio gan y diwydiant.</p> <p><b>Cynnydd:</b> <b>Darparodd rhai aelodau wybodaeth cyn y cyfarfod ym mis Hydref ond nid oes unrhyw wybodaeth bellach wedi dod i law.</b></p>	Yr Aelodau
<p><b>Cam gweithredu 4:</b> WFA/Seafish i weithio gyda'i gilydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i) Paratoi cais am gyllid dan EMFF i helpu'r diwydiant i osod tyllau dianc mewn cewyll.</li> <li>ii) Llunio taflen wybodaeth/cyflwyniad YouTube i hyrwyddo defnydd a manteision defnyddio tyllau dianc mewn cewyll.</li> </ul> <p><b>Cynnydd:</b> <b>Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu gan JE yn y cyfarfod ar 7 Chwefror.</b></p>	WFA/ Seafish
<p><b>Cam gweithredu 5:</b> Yr aelodau i ddarparu adborth i BJ ar gynnwys y cynllun costau symlach</p> <p><b>Cynnydd:</b> <b>Mae ychydig o adborth wedi dod i law ac wedi'i ystyried. Dylai'r cynllun fod yn weithredol ym mis Ionawr/Chwefror 2019.</b></p>	Yr aelodau
<p><b>Cam gweithredu 6:</b> Yr aelodau i roi gwybod i'w aelodau cymdeithas a'r sawl sydd â diddordeb ehangach mewn pysgodfeydd am weithdai ar Sytemau Cipio Data (systemau monitro cychod ar y glannau, adroddiadau cychod dan 10 metr, tystysgrifau allforio) a fydd yn cael eu cynnal ym mis</p>	Yr aelodau

WMFAG – (M1) – Eitem 2(a)

<p>Hydref.</p> <p><b>Cynnydd: Cynhaliwyd gweithdai yn Abertawe, Aberdaugleddau, Aberystwyth, Caernarfon a Chyffordd Llandudno. Roedd y nifer a oedd yn bresennol yn y gweithdai yn amrywio o leoliad i leoliad.</b></p>	
<p><b>Cam gweithredu 7:</b> MJ i gysylltu ag aelodau pysgodfeydd WMFAG i ystyried eu diddordeb mewn mynychu'r cyfarfod rhanddeiliaid gyda Defra ym mis Tachwedd.</p> <p><b>Cynnydd: Wedi'i gwblhau - Gwahoddiad wedi'i anfon.</b></p>	MJ
<p><b>Cam gweithredu 8:</b> MS i gysylltu â phob aelod o WMFAG i'w gwahodd i gyfarfod rhanddeiliaid gydag Ysgrifennydd y Cabinet cyn trafodaethau'r Cyngor ym mis Rhagfyr.</p> <p><b>Cynnydd: Wedi'i gwblhau - gwahoddiadau wedi'u hanfon.</b></p>	MS
<p><b>Cam gweithredu 9:</b> HW i ddarparu manylion yr Adroddiad economaidd-gymdeithasol ar Ddraenogiaid y Môr a Morgathod i MS/MJ.</p> <p><b>Cynnydd: Mae gwybodaeth wedi'i darparu.</b></p>	HW
<p><b>Cam gweithredu 10:</b> JB i ganfod pa wybodaeth y dylid ei chael ar ôl cofrestru ar y Gofrestr Rhanddeiliaid.</p> <p><b>Cynnydd: Diben y gofrestr oedd sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid sy'n ymwneud â gwaith morol a physgodfeydd yn cael eu cadw mewn un lle er mwyn medru dosbarthu gwybodaeth yn haws (hy Cylchlythyrau, ymgynghoriadau, unrhyw beth a fyddai'n ddefnyddiol i'r diwydiant). Dim ond ychydig iawn o randdeiliaid sy'n ymwneud â physgodfeydd sydd wedi cofrestru a gallai hyn gyfyngu ar yr wybodaeth y gallai aelodau ei chael yn y dyfodol.</b></p>	JB
<p><b>Cam gweithredu 6:</b> Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu papurau ychwanegol i'r aelodau hynny nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod.</p> <p><b>Cynnydd: Wedi'i gwblhau - papurau wedi'u hanfon ar 2/10/18.</b></p>	Yr Ysgrifenydd iaeth